PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/cy/news

Profiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2010

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… mwy na thebyg y lle gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 3
Rhagfyr 2010
Ionawr 2011

2 Cyflogadwyedd: paratoi am fywyd wedi graddio


4 Dathlu rhagoriaeth addysgu


6 Graddau boddhad


8 Pobl Aber


**NEWYDDION PRIFYSGOL**

# Hwb o £3.7m i'r traethau

Bydd ymdrochwyr a brigdonwyr sy'n mwynhau traethau gorllewin Cymru ac arfordir dwyrain Iwerddon yn gallu chwilio ar-lein i ganfod ansawdd dŵr y môr ar adegau penodol erbyn 2015.

Ffynhonnell yr wybodaeth fydd system newydd i brofi dŵr sy'n cael ei datblygu fel rhan o fenter werth £3.7m i wneud yn fawr o'r hyn sydd gan yr arfordir ar ddwy ochr Môr Iwerddon i'w gynnig.

Yr Athro David Kay o'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear sy'n arwain y prosiect yng Nghymru a bydd yn gweithio'n agos â chydweithwyr yng Ngholeg Prifysgol Dulyn.

Mae'r system yn golygu rhagweld ansawdd dŵr, yn seiliedig ar brofion a dadansoddi yn ogystal â data arfordirol a maes, ac mae modd ei chysylltu â systemau gwybodaeth electronig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymdrochwyr am gyflwr y dŵr.

Bydd y system newydd yn helpu pobl i ddeall ffynonellau llygredd yn well ac yn helpu i gynnal a chadw traethau Baner Las Cymru drwy fodloni Cyfarwyddeb newydd yr Undeb Ewropeaidd ar Ddŵr Ymdrochi (2006).

Rhaid i draethau ymdrochi drwy'r Undeb Ewropeaidd gyfan gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb newydd erbyn 2015, gyda samplo yn dechrau yn 2012.

Y gobaith yw y bydd hyn yn gwella ansawdd ardaloedd arfordirol Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin ac Abertawe yn ogystal â Dulyn i hybu twristiaeth a chefnogi economïau lleol.

Mae'r prosiect wedi derbyn £2.7m drwy raglen Drawsffiniol Cymru/Iwerddon yr Undeb Ewropeaidd a bydd y tîm ymchwil yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd yn Iwerddon, Dinas a Chyngor Abertawe, Cyngor Wicklow yn Iwerddon a Dŵr Cymru Welsh Water.



GWASANAETH CYNGHORI AR YRFAOEDD

# Cyflogadwyedd: paratoi am fywyd wedi graddio

Fel rhan o strategaeth cyflogadwyedd y Brifysgol sy'n cael ei chyflwyno eleni, mae'r Gwasanaethau Gyrfaoedd wedi datblygu ymgyrch farchnata er mwyn annog myfyrwyr i gynyddu eu cyflogadwyedd a rheoli'r broses o ddatblygu eu gyrfa i baratoi ar gyfer bywyd ar ôl graddio.

Mae'r ymgyrch yn defnyddio lleisiau a phrofiadau myfyrwyr a graddedigion mewn fideos gwe ac mewn print i gyfleu negeseuon allweddol o ran cyflogadwyedd ac arweiniad gyrfa. Mae'r ymgyrch yn cynnwys pum galwad cryf i fyfyrwyr weithredu, ac yn cysylltu ag adnoddau gwe cynhwysfawr y Gwasanaeth Gyrfaoedd, ac fe gaiff ei ailadrodd bob tymor:




- "Peidiwch â chymryd eu gair nhw'n unig" sy'n defnyddio straeon o lwyddiannau myfyrwyr a graddedigion i ddangos sut y gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd helpu ei gleientiaid; ewch i www.aber.ac.uk/careers
- "Cafodd Rhys gymorth i ennill wrth ddysgu" sy'n hybu gwasanaethau Cyswllt Swyddi i helpu myfyrwyr i chwilio am waith rhan amser / yn ystod y tymor: ewch i www.aber.ac.uk/careers/joblink
- "Ydych chi'n rhoi'r cyfle gorau posib i chi'ch hun ar ôl i chi raddio?" sy'n annog myfyrwyr i wneud y defnydd gorau o'u profiad yn y brifysgol a gwella eu cyflogadwyedd drwy gymryd rhan mewn clybiau, cymdeithasau, gwirfoddoli a phrofiad gwaith; ewch i www.aber.ac.uk/careers/getstarted
- "Beth sy'n eich gwneud chi'n wahanol i ymgeiswyr eraill?" sy'n dangos sut mae myfyrwyr wedi elwa ar brofiad gwaith ac yn eu hannog i ystyried cynlluniau megis GO Wales a YES (y Cynllun Blwyddyn mewn Gwaith); ewch i www.aber.ac.uk/workexp
- "Beth yw eich cynlluniau?" sy'n amlygu opsiynau i raddedigion a phwysigrwydd cynllunio gyrfa; ewch i www.aber.ac.uk/careers/choosefuture.

Mae chweched fideo, "Beth bynnag eich stori, fe allwn ni helpu", yn dangos sut mae'r Gwasanaethau Gyrfaoedd yn effeithiol drwy helpu pobl o bob cefndir a chyd-destun gan gynnwys anabledd, ehangu mynediad a phersbectifau diwylliannol - ewch i www.aber.ac.uk/careers/diversity.

Elfen allweddol o'r ymgyrch fydd negeseuon ebost i hyrwyddwyr cyflogadwyedd adrannol a fydd yn annog staff academaidd i raeadru unrhyw negeseuon cyflogadwyedd.

CYFATHREBU A MATERION CYHOEDDUS

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus, Prifysgol Aberystwyth. Ffôn 01970 621763 E-bost cyfathrebu@aber.ac.uk.

Os ydych am gynnig eitem ar gyfer ei chyhoeddi gallwch wneud hynny ar bapur neu drwy e-bost. Yn anffodus, oherwydd prinder gofod, ni fydd yn bosibl cyhoeddi pob eitem sydd yn dod i law. Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Gwener 7 Ionawr 2011.**

MATHEMATEG A GWYDDORAU FFISEGOL

# LOFAR: hwb i ymchwil solar

Bydd y telesgop radio mawr cyntaf i'w adeiladu ym Mhrydain ers degawdau yn rhoi'r olygfa orau eto o atmosffer allanol yr Haul yn ôl **Dr Andy Breen** o'r Sefydliad Mathemateg a Gwyddorau Ffisegol.


Mae Prifysgol Aberystwyth yn un o 22 Prifysgol ym Mhrydain sydd wedi cydweithio ar ddatblygu'r orsaf Arae Amledd Isel (LOFAR) yn Chilbolton, Swydd Hampshire.

Mae Dr Breen yn arwain adran rhyng-blanedol maes gwyddoniaeth Amgylchedd Solar a'r Gofod o fewn LOFAR. Dywedodd "Bydd yn rhoi i ni'r olygfa orau eto o atmosffer allanol yr Haul a'r gwynt solar, a sut mae'n effeithio ar amgylcheddau gofod y planedau. Mae canolfan Chilbolton yn rhoi'r gwahaniad llydan sydd ei angen rhwng safleoedd ar gyfer astudiaethau o'r gwynt solar."

Cynllun Ewropeaidd yw LOFAR a fydd, wedi ei gwblhau, yn cynnwys 5000 antena unigol mewn grwpiau bychan (gorsafoedd) ar draws Ewrop, i greu'r telesgop radio mwyaf a mwyaf manwl gywir yn y byd.



*LOFAR*



*Dr Andy Breen*

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Colofn yr Is-Ganghellor



Mae hwn yn gyfnod heriol i bawb sy'n gweithio mewn addysg uwch. Rydym ni wedi gweld nifer o gyhoeddiadau pwysig iawn yn ddiweddar sydd yn arwain at dirwedd sydd yn newid yn gyflym.

Bydd Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU yn cael effaith sylweddol ar Addysg Uwch (AU) yn y DU. Ynghyd â'r adroddiad annibynnol ar gyllido AU yn Lloegr a chyllido myfyrwyr dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Browne (Securing a Sustainable Future for Higher Education), mae'n debygol y gwelwn ni newidiadau pellgyrhaeddol. Er taw i Loegr y mae Browne yn berthnasol, bydd yr oblygiadau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn sylweddol.

Yn yr Adolygiad Gwariant, mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi gostyngiadau sylweddol ac eang mewn gwariant cyhoeddus. Cynigir y dylid cwtogi cyllid Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn sylweddol iawn, a bydd hyn yn golygu gostyngiadau sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu.

Ar y llaw arall bydd cyllid ar gyfer ymchwil (gan gynnwys dyraniadau i'r Cynghorau Ymchwil) yn cael ei gynnal mewn termau arian parod. Dyw dadelfeniad y gyllideb ymchwil ddim yn wybyddus eto, ond disgwylir y bydd yn arwain at grynhoi cymorth ymchwil yn sylweddol. Mae'n debygol mai ymchwil o ragoriaeth ryngwladol yn unig a gaiff ei gefnogi yng Nghymru, a dim ond mewn unedau asesu sy'n ddigon mawr.

Os caiff cyllideb ddrafft Cymru ei chadarnhau yn y pen draw, bydd y dyraniad cyllid i HEFCW tua 9% yn is mewn termau arian parod ym mlwyddyn ariannol 2011/12 nag yn y flwyddyn gyfredol. Ychydig iawn o gyllid cyfalaf fydd ar gael. Mae hyn yn bron yn sicr o arwain at doriadau yn y grant rheolaidd yn ystod y flwyddyn bresennol. Rydym ni yn Aberystwyth wedi rhagweld gostyngiadau sylweddol yn ystod cyfnod yr adolygiad gwariant ac rwyf i ar hyn o bryd yn trafod sut y gallwn ni ymateb i'r newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol (LlCC).

Mae ymateb llywodraeth San Steffan i adolygiad Browne yn awgrymu newid sylfaenol o ffynonellau cyhoeddus i ffynonellau cyllid preifat ar gyfer AU. Mae'n galluogi i sefydliadau sefydlu cyfraniad gan raddedigion ar gyfer cyrsiau israddedig sydd rhwng £6000 a £9000.

Bellach cyhoeddodd LlCC ei phenderfyniad ar gyllido AU. Bydd prifysgolion yng Nghymru yn cael sefydlu cyfraniad gan raddedigion ar gyfer cyrsiau israddedig a fydd hefyd rhwng £6000 a £9000 y flwyddyn ar yr amod eu bod yn dangos ymroddiad i ehangu mynediad a chyflawni amcanion strategol eraill sydd wedi eu cynnwys yn strategaeth gorfforaethol y Cyngor Cyllido. Y gwahaniaeth yng Nghymru yw y bydd LlCC yn darparu grant i fyfyrwyr sydd yn byw yng Nghymru fydd yn gyfwerth â'r gwahaniaeth rhwng y ffioedd presennol ar ffioedd newydd ble bynnag y byddant yn astudio yn y DU. Bydd cymorth i fyfyrwyr rhan amser ac mae'r cynigion yn berthnasol i fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd tu allan i'r DU sydd yn astudio yng Nghymru.


Ni fydd rhaid talu ar ddechrau'r cwrs. Bydd y mecanwaith ar gyfer ad-dalu'r un ag yn Lloegr - trothwy incwm o £21,000 y flwyddyn, wedi ei fynegrifo yn ôl lefelau cyflog, a graddfa log newidiol cynyddol sydd yn ddibynnol ar incwm.

Rwy'n parhau i bwysleisio gwerth cydweithio a gweithio gyda sefydliadau eraill. Efallai y bydd rhai ohonoch wedi gweld cyfeiriadau yn ddiweddar yn y cyfryngau i'r nifer o sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. Rydym ni wedi gweld uno a chydweithio eisoes yng Nghymru, ac un enghraifft o hyn yw sefydlu IBERS. Mae gennym berthynas strategol lwyddiannus iawn gyda'n cydweithwyr ym Mangor, ac mae Aberystwyth yn datblygu perthynas weithio dda gyda cholegau Addysg Bellach yn ein rhanbarth gan gynnwys Coleg Ceredigion. Mae'r Strategaeth Ranbarthol Addysg Uwch gafodd ei chyflwyno yn ddiweddar i HEFCW, Cydweithio a Datblygu ar draws Rhwydweithiau Rhanbarthol (Cadarn), yn ymagwedd gref a grymus at bartneriaeth ranbarthol, polisi darpariaeth a dilyniant i ddysgwyr.

Rhaid i weithgaredd cydweithiol fod ag amcanion clir, fod o fudd i bawb sydd yn ymwneud ag ef ac yn gweithio o'r top i lawr ac o'r gwaelod i fyny. Mewn ymchwil mae ymgynnull yr ystod angenrheidiol o arbenigedd yn hanfodol.

Does dim amheuaeth ein bod yn cychwyn ar gyfnod o newid sylfaenol. Fodd bynnag rwyf i'n hyderus fod Prifysgol Aberystwyth mewn cystal lle â'r mwyafrif o sefydliadau i ymateb. Rydym ni'n sefydliad sy'n tyfu o ran maint ac uchelgais, gan gyfrannu'n aruthrol i economi canolbarth Cymru gyda throsiant sydd tua £120m y flwyddyn. Rhaid i ni weld y datblygiadau hyn fel cyfle i ddod yn gryfach ac yn fwy llwyddiannus.

## Dirprwy Is-Ganghellor yn cyhoeddi ei ymddeoliad



Cyhoeddodd **Dr John Harries** ei fwriad i ymddeol ddiwedd mis Rhagfyr.

Daeth John i Aberystwyth ym 1967 i astudio Botaneg Amaethyddol a dechreuodd ei yrfa fel darlithydd yng Ngholeg Amaethyddol Cymru ym 1974.

Ym 1992 fe'i penodwyd yn Bennaeth y Coleg Amaethyddol ac fe'i harweiniodd drwy gyfnod o dwf llwyddiannus tan iddo uno â'r Brifysgol ym 1995.

Yn 2002 cafodd ei ethol yn Ddeon y Gyfadran Wyddoniaeth cyn cael ei benodi i'w swydd bresennol yn Ddirprwy Is-Ganghellor yn 2005.

Dywedodd yr Athro Noel Lloyd, "Mae Dr Harries wedi gwneud cyfraniad aruthrol i'r Brifysgol - i'w adran, fel Deon ac fel Dirprwy Is-Ganghellor. Rydym yn dymuno yn dda iddo ef a'i deulu ar ei ymddeoliad."

Yn 2002 cafodd John ei wneud yn Gymrawd y Gymdeithas Amaethyddol Frenhinol.

NEWYDDION PRIFYSGOL

# Dathlu rhagoriaeth addysgu

Cyflwynwyd gwobrau rhagoriaeth addysgu i saith aelod o staff yn ystod cinio blynyddol Gwobrau Rhagoriaeth Diwrnod Athrawon y Byd UNESCO a gynhaliwyd ddydd Mawrth 5 Hydref.

Derbyniodd Peter Bunting (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear), Rosemary Cann (Addysg a Dysgu Gydol Oes), Ayla Gol (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Sangeeta Khorana (Rheolaeth a Busnes), Mina Davies-Morel (Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig), Michael Rose, (Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig) ac Anoush Simon (Astudiaethau Gwybodaeth) wobrau am Ragoriaeth Addysgu yn 2010.

Yn ogystal derbyniodd Ross Bellaby (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Wenda He (Cyfrifiadureg), Charlotte Heath-Kelly (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Michael Seibold (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) a Les Tumilty (Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff) Wobr PA 2010 i Gynorthwywyr Addysgu Uwchraddedig Eithriadol.

Hefyd cyflwynwyd gwobr Gwella 2010 yn y seremoni i Carl Kater (IBERS), Ayla Gol (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Julie Mathias a Tim Gillison (Astudiaethau Gwybodaeth) a Samantha Winter (Gwyddor Chwaraeon), a chyflwynwyd Cymrodoriaeth Pwnc yr AAU i Dr Judith Broady-Preston HEA (Astudiaethau Gwybodaeth).

Cyflwynwyd Tystysgrif Uwchraddedig Addysgu mewn Addysg Uwch i 14 aelod arall o staff.



*Enillwyr y Wobr Rhagoriaeth Addysgu Peter Bunting, Sangeeta Khorana, Mina Davies-Morel, Ayla Gol ac Anoush Simon.*

Roedd y digwyddiad yn cyd-fynd â lansio Cylchgrawn Ymarfer Academaidd newydd Prifysgol Aberystwyth. Ceir manylion ar-lein yn: nexus.aber.ac.uk/xwiki/bin/view/Aberystwyth+University+Journal+of+Academic+Practice

Ceir rhagor o wybodaeth gan Dr Jo Maddern (oam@aber.ac.uk) neu Graham Lewis (gjl@aber.ac.uk)

# 'Mads' yn y Mileniwm

Fel rhan o'u dathliadau 60ain mlwyddiant bu cyn-fyfyrwyr a myfyrwyr presennol Prifysgol Aberystwyth yn canu gyda Chantorion Madrigal y Brifysgol ar faes chwarae Stadiwm y Mileniwm cyn y gêm rhwng Cymru a De Affrica.

Ers 1950 mae mwy na 500 o fyfyrwyr wedi canu gyda'r 'Mads' fel y mae'r côr yn cael ei adnabod. Dros y blynyddoedd mae'r côr wedi gweithio gyda chyfansoddwyr megis Michael Tippett ac wedi teithio ar draws y byd i wledydd megis Rwsia, Gwlad yr Iâ, yr Unol Daleithiau, Ynysoedd y Seychelles a'r rhan fwyaf o Ewrop.

Mae'r dathliadau wedi cynnwys cyhoeddi llyfr ac archif ddigidol am hanes y côr a chomisiynu darnau newydd, a'r uchafbwynt, perfformiad cyhoeddus yng Ngregynog ar 4 o Ragfyr.

Roedd y côr yn perfformio yn Stadiwm y Mileniwm ar wahoddiad y cyn aelod Haydn James, Cyfarwyddwr Cerddorol Undeb Rygbi Cymru. Mae Haydn wedi arwain corau a bandiau yn ystod y canu cyn gemau rhyngwladol Cymru yn Stadiwm y Mileniwm Caerdydd ar fwy na 60 achlysur.





IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD

# Beth sydd gan waed ffug a cholur i'w wneud ag Iechyd a Diogelwch?



Eithaf tipyn, os ydych chi'n aelod o staff â chymhwyster Cymorth Cyntaf.

Mae Swyddfa Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd y Brifysgol wedi cyflwyno rhaglen arloesol o hyfforddiant Cymorth Cyntaf i ategu cyfleoedd hyfforddi eraill sydd ar gael yn yr Uned.

Mae'r cyrsiau ar gael i staff sydd â thystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu Gymorth Cyntaf Brys yn y Gweithle, ac yn cynnig y cyfle i asesu a thrin anafiadau mewn efelychiadau o ddamweiniau.



Yn ôl Dr Helen Williams, ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Cynorthwyol, mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnig i roi cyfle i staff ymarfer eu sgiliau o fewn y cyfnod hyfforddi tair blynedd gofynnol, a gweithio gyda staff eraill sydd wedi derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf ar draws y Brifysgol.

"Mae hyfforddiant cymorth cyntaf yn rhoi'r sgiliau i chi allu ymdrin â sefyllfa ond mae'n ddefnyddiol cael profiad ymarferol cyn i chi fod mewn sefyllfa go iawn. Bydd yr hyfforddiant hwn yn rhoi hwb i hyder ein swyddogion cymorth cyntaf a bydd yn eu helpu i ddelio'n hyderus â sefyllfaoedd a all godi yn y gweithle."

Cynhaliwyd y sesiwn gyntaf mewn labordy gyda staff o IBERS, IGES ac YADGO. Roedd yr ail sesiwn yn edrych ar ddamweiniau a allai ddigwydd mewn ystafelloedd darlithio a swyddfeydd gyda staff o amrywiaeth o adrannau.

Gyda'r defnydd o waed ffug a cholur cafwyd clwyfau realistig iawn i'w trin yn sgil amrywiaeth o 'ddamweiniau'. Datblygwyd y senarios mewn cydweithrediad â darparwr hyfforddiant lleol, CRT Medical, oedd yn darparu'r 'cleifion' a'r hyfforddiant ar y dydd.

Dywedodd Russ Colman o CRT Medical "Mae'n ganmoladwy iawn fod Prifysgol Aberystwyth yn neilltuo amser ac ymdrech i drefnu hyfforddiant realistig ac ymarferol i'w staff.

Roedd yr hyfforddiant yn ddwys ac wedi'i gynllunio i brofi cymhelliant, cyfathrebu a sgil eu swyddogion cymorth cyntaf. Rwyf i'n falch i ddweud bod pawb a gymerodd ran wedi perfformio'n dda iawn ac wedi dysgu llawer o'r cyfle dysgu rhagorol hwn."

Bydd rhagor o sesiynau gydag amrywiaeth o senarios yn cael eu trefnu yn y dyfodol ac mae'r swyddfa IaDA yn bwriadu gwahodd ein holl swyddogion cymorth cyntaf i gymryd rhan yn un o'r sesiynau hyn.

Cliciwch www.aber.ac.uk/safety-environment/cymraeg i gael rhagor o wybodaeth am Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn PA.


# Ffeithiau Hanesyddol

A wyddech chi fod gwesty'r Castell (yr Hen Goleg) wedi'i brynu fel adeilad anghyflawn ym 1867 gan bwyllgor Prifysgol Cymru oddi wrth y contractwr rheilffyrdd, Thomas Savin am £10,000?


Gellir darllen hyn, ynghyd â llu o ffeithiau hanesyddol eraill am y Brifysgol ar dudalennau hanes newydd y Brifysgol www.aber.ac.uk/cy/university/history/

# Porfa las Aber

Anfonodd **Simon Edwards** o'r Adran Ystadau y ffotograff hwn o Gwpan Ryder eleni a gynhaliwyd yn y Celtic Manor ger Casnewydd yng Ngwent. Er gwaethaf y glaw, cafodd Simon, sy'n Gadeirydd Clwb Golff y Borth, a'i fab, ddiwrnod i'w gofio yn un o achlysuron golffio mwyaf y byd.




# Teithiau Cerdded y Campws




Ffaith ddigon cyfarwydd yw bod cerdded yn dda i'ch iechyd yn feddyliol ac yn gorfforol, ac mae'r Ganolfan Chwaraeon yn falch i gyhoeddi tair taith gerdded i chi eu mwynhau ar y campws. Mae'r teithiau oll yn dechrau ac yn gorffen yn y Ganolfan Chwaraeon ac yn para tua 20, 30 neu 40 munud. Mae map ar gael ar-lein: www.aber.ac.uk/en/sportscentre/health/walksoncampus/ ynghyd â thaflen am rai o'r coed prin ac anarferol ar hyd y daith.

DATBLYGU A CHYSYLLTIADADU ALUMNI

# Graddau boddhad



*Julian Smyth*

Julian Smyth, Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni, yn trafod cyfraniad dyngarwch, o'r cyfnod fictorianaidd hyd heddiw.

Ers talwm, roedd codi arian yn y byd addysg yn golygu Meistr coleg yn Rhydychen neu Gaergrawnt yn mwynhau gwydraid tawel o bort gyda miliwnydd o gyn-fyfyriwr, gan adael iddo wybod y byddai rhodd sylweddol nid yn unig yn golygu gosod ei enw ar adeilad newydd, ond hefyd y byddai ei fab llai na thalentog yn cael rhwydd hynt i astudio yn y coleg heb boeni'n ormodol am y gofynion mynediad swyddogol. Daeth tro ar fyd!

Heddiw, mae'r mwyafrif llethol o brifysgolion (a nifer cynyddol o ysgolion) wedi sefydlu swyddfeydd "datblygu" parhaol, â'r dasg o gadw cysylltiad â'r holl gyn-fyfyrwyr a chreu cronfeydd dyngarol. Beth bynnag fydd canlyniad terfynol adroddiad diweddar Browne i gyllido prifysgolion, gallwch fentro swllt, punt, doler, yen neu ewro y bydd swyddfeydd o'r fath yn datblygu i fod yn fwyfwy pwysig i lwyddiant a datblygiad ein prifysgolion yn y dyfodol.

Ond cyn i ni ddechrau wylofain a galaru am golli cefnogaeth y wladwriaeth i addysg uwch gynhwysfawr i bawb, mae'n werth cofio mai prin ddeugain mlynedd y parhaodd yr "oes aur" hon o gyllido prifysgolion - o Ddeddf Addysg 1944 hyd at ganol yr 1980au pan ddechreuodd llywodraeth Thatcher ddatgymalu'r gefnogaeth yr oedd myfyrwyr wedi arfer ei chael - megis budd-dal tai dros y gwyliau. Yn ystod y cyfnod gwynfydedig hwn, roedd llai na 10% o boblogaeth ysgolion uwchradd yn mynd ymlaen i'r brifysgol - heddiw mae'r ffigur hwnnw'n agosach at 45%. Efallai nad oes syndod felly, hyd yn oed cyn yr argyfwng economaidd presennol, bod adnoddau dan straen a bod myfyrwyr yn gorfod codi benthyciadau i dalu ffioedd a chostau byw.

Sy'n dod â ni at ddyngarwch. Roeddem ni'n arfer bod yn dda am wneud hyn. Edrychwch ar ganol ein trefi a'n dinasoedd Fictorianaidd, yr ysbytai, ysgolion, llyfrgelloedd, adeiladau prifysgol, baddondai cyhoeddus, parciau, amgueddfeydd a neuaddau cyngerdd - adeiladwyd cyfran fawr o'r rhain drwy ddyngarwch ac er budd y cyhoedd.

Yma yng Nghymru doedd dim prifysgol o gwbl tan 1872, pan sefydlwyd Coleg Prifysgol Cymru fel yr oedd ar y pryd yn Aberystwyth. Ni chafodd ei sefydlu gan y dywysogaeth, na'r eglwys na'r llywodraeth genedlaethol: fe'i cyllidwyd â thanysgrifiadau cyhoeddus gan y werin a thrwy haelioni'r dyngarwyr Fictorianaidd mawr megis gŵr busnes y meysydd glo a'r rheilffyrdd David Davies, ac fe'i gyrrwyd gan angerdd a nerth Hugh Owen a'i bwyllgor o wirfoddolwyr, heb geisio yr un wobr. Am bymtheng mlynedd ar ôl ei sefydlu llwyddodd i oroesi heb unrhyw gymorth gan y llywodraeth, ac fe'i cyllidwyd â ffioedd rhesymol a haelioni parhaus pobl Cymru.

Dyw hyn ddim yn golygu bod pobl Cymru neu Brydain wedi troi'n ariangar neu'n gybyddlyd ym 1944 - roedd yr erydu graddol ar ein traddodiad dyngarol wedi dechrau ddeng mlynedd ar hugain ynghynt gyda difa cenhedlaeth yn y Rhyfel Byd Cyntaf, y Dirwasgiad dilynol ac yna'r Ail Ryfel Byd. Roedd tlodi eang, ac roedd llawer o gyfoethogion hefyd wedi methu â goroesi'r Dirwasgiad yn llwyddiannus, ac yn gyffredinol doedd dim arian yn y wlad. Unwaith y cafodd y wladwriaeth les ei chreu, doedd fawr o angen na chyfiawnhad dros ailgynnau'r tân dyngarol.

Yr hyn sydd wedi digwydd dros yr ugain mlynedd diwethaf yw bod dyngarwch wedi'i aileni. Fel ym 1872, mae'r cyfoethog a'r llai cyfoethog wedi dod at ei gilydd i gefnogi ein sefydliadau addysgol. Yn 2009/10, cododd y nifer o gyn-fyfyrwyr a gyflwynodd rodd i Brifysgol Aberystwyth er enghraifft ddwy fil y cant, ffigur rhyfeddol. A pham eu bod nhw'n gwneud hyn? Wel, mae eu rhesymau'n niferus ac yn amrywiol, ond rwyf i'n credu bod dau brif reswm am y cynnydd anferth hwn mewn cefnogaeth: yn gyntaf maen nhw'n rhoi am eu bod am gefnogi myfyrwyr y presennol. Dyw hyn ddim yn ymwneud cymaint â'r prifysgolion eu hunain, er bod rhai'n amlwg yn creu teimladau cynhesach na'i gilydd, ond â'r awydd i weld y genhedlaeth gyfredol o fyfyrwyr yn mwynhau'r un manteision addysg uwch ag yn y gorffennol, ac ymwybyddiaeth o'r graddau y mae myfyrwyr heddiw yn ddarostyngedig i rymoedd economaidd y tu hwnt i'w



rheolaeth. Yn ail, maen nhw'n rhoi am eu bod yn cael cais i roi - yn briodol a chan staff ymrwymedig a phroffesiynol - ac yn derbyn diolch diffuant am eu rhodd. Nid gwerthu ceir ail law yw hyn ond gwerthu breuddwyd a gweledigaeth. Mae staff prifysgol sy'n ymwneud â'r gwaith hwn yn siarad yn ddi-baid am adeiladu perthynas, ymglymiad oes, cyfathrebu, stiwardio'r rhoddwyr a phartneriaeth. Ac maen nhw'n golygu'r hyn maen nhw'n ei ddweud. Maen nhw'n gwybod y bydd pobl yn rhoi pan gânt wybod beth sy'n digwydd, lle bydd eu harian yn cael ei wario, ar beth, a pham fod ei angen yn y lle cyntaf.

Rwyf i'n credu felly y byddwn ni o bosibl yn edrych yn ôl â chryn falchder ar y ffordd yr aethom ni ati i gefnogi ein pobl ifanc. Efallai y bydd llai o adeiladau rhwysgfawr ar ein campysau dros y blynyddoedd nesaf, ond fe fydd yna ysgoloriaethau, bwrsariaethau, cronfeydd caledi, mentrau cyflogadwyedd a chymorth gyrfa, gyda llawer o'r rhain yn cael eu hariannu, fel yn oes Fictoria, gan gyfuniad o geiniogau gweddwon a miliynau'r mawrion. Bendith arnyn nhw, bob un.



GWASANAETHAU CYNGHORI A MASNACHEIDDIO

# Enillydd amlwg

Syniad yn ymwneud â thechnegau newydd ar gyfer cynhyrchu serameg gwydr tryloyw yw enillydd 'Cystadleuaeth Dyfeisio' gyntaf Prifysgol Aberystwyth, a lansiwyd gan y Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori (GMY).

Eleni, cynlluniwyd y gystadleuaeth i annog staff a myfyrwyr i gael eu technolegau i'r farchnad, ac enillydd y wobr o £2,000 yw Dr Martin Wilding o'r Sefydliad Mathemateg a Ffiseg.

Gallai'r ddyfais arwain at welliannau yn nodweddion tryloyw crochenwaith swmp yn ogystal â gwell effeithlonrwydd cost wrth eu cynhyrchu.

Mae GMY wrthi drwy'r adeg yn chwilio am syniadau a dyfeisiau newydd. Cysylltwch â Dr Rhian Hayward rih@aber.ac.uk / 01970 628744 neu ewch i www.aber.ac.uk/ccs am wybodaeth bellach.



*Dr Martin Wilding gyda Dr Rhian Hayward o GMY.*

.

RHEOLAETH A BUSNES

# The Apprentice

Roedd un o sêr y rhaglen The Apprentice, Kimberly Davis, yn siaradwr gwadd yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Rwydweithiau, Dysgu a Mentergarwch, a gynhaliwyd gan yr Ysgol Rheolaeth a Busnes tua diwedd Medi.

Trefnwyd y digwyddiad fel rhan o Brosiect Rhwydweithiau Dysgu Cynaliadwy Iwerddon a Chymru (SLNIW), prosiect ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth a Sefydliad Technoleg Waterford sy'n cynnig rhwydweithiau busnes i fentrau bach yng Ngorllewin Cymru a De Ddwyrain Iwerddon.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys cystadleuaeth yn efelychu The Apprentice, a feirniadwyd gan Kimberly, David Lea-Wilson o Halen Môn, Dr Bill O'Gorman o Sefydliad Technoleg Waterford a Nerys Fuller-Love o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes. Yr her i aelodau rhwydweithiau busnes Cymreig SLNIW oedd creu ymgyrch marchnata ar gyfer cynnyrch newydd, dychmygol.



*Yn derbyn y wobr oddi wrth Kimberley Davies y mae (o'r chwith i'r dde): Gary Howell (Morgan Walsh Consultancy Ltd), Andrew Button (Map Analysis Ltd), Mearina Owen (The Tan Shop), Wendy Parry (Smart-Tees Ltd) a Carolyn Michel (Design Elements).*

Cysyniad y tîm buddugol oedd 'swigen' a gynlluniwyd i roi awr ychwanegol y dydd i bobl.

Mae gwybodaeth bellach am y prosiect SLNIW ar gael oddi wrth Anne Howells nsh@aber.ac.uk neu Lesley Langstaff lkl@aber.ac.uk ffôn: 01970 622506. Ariennir SLNIW yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

# Penodiadau

## Ysgrifennydd Academaidd

Penodwyd **Dr Alan Macmillan** yn Ysgrifennydd Academaidd y Brifysgol.




Daeth Alan i Aberystwyth fel myfyriwr uwchraddedig mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar ôl cwblhau MA ym Mhrifysgol Aberdeen. Treuliodd naw mlynedd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol fel myfyriwr Meistr a PhD, ac fel Cynorthwyydd Ymchwil a Chynorthwyydd Addysgu Uwchraddedig. Roedd ei addysgu a'i ymchwil ym meysydd astudiaethau strategol a pholisi amddiffyn Prydain.

Ym 1996 ymunodd â'r Swyddfa Academaidd mewn swydd dros dro i helpu i baratoi ar gyfer Adolygiad yr ASA o'r Brifysgol ym 1998, ac yna fe'i penodwyd yn gynorthwyydd gweinyddol yn Swyddfa'r Deon ym 1998.

Mae Alan yn olynu **Mr David McParlin** a ymddeolodd yn ddiweddar. Ymunodd David â'r Swyddfa Academaidd ym 1974, gan ddilyn y deiliad blaenorol a oedd wedi dechrau ei yrfa yno ym 1922! Yn ystod ei gyfnod yn y swydd bu'n gyfrifol am gofnodion myfyrwyr, datblygu polisi ar Ansawdd a Safonau Academaidd, apeliadau, cwynion, rheolau a rheoliadau, disgyblu myfyrwyr ac yn fwy diweddar, cyflwyno graddau PA.

## Cydweithio a Recriwtio Rhyngwladol (IRC)



Cyhoeddodd IRC ddau benodiad newydd, **Chris Neville** (Swyddog Rhyngwladol) a **Murtza Ali Ghaznavi** (Rheolwr y Dwyrain Canol).

Mae Chris, sydd â gradd mewn marchnata o Brifysgol Bradford, yn ymuno ag Aberystwyth ar ôl treulio pum mlynedd yn gweithio ym maes recriwtio marchnata addysg yn Shanghai Tsieina.



**Murtza Ali Ghaznavi** sy'n gyfrifol am hybu cydweithio a recriwtio yn bennaf yn Rhanbarth y Dwyrain Canol yn ogystal â'r Gymanwlad o Daleithiau Annibynnol (CIS - cyn Wladwriaethau Sofietaidd Georgia, Kazakhstan, Uzbekistan etc) ac Affrica. Fe'i ganwyd yn Dubai ac astudiodd am LLB ac MBA yn y DU. Ers hynny mae wedi cynrychioli sefydliadau addysg uwch yn ei ranbarth brodorol ac wedi gweithredu fel arbenigwr mynediad i'r farchnad yn y Dwyrain Canol a'r Rhanbarthau CIS.

## Y Ganolfan Ehangu Mynediad a Chynhwysiad Cymdeithasol

Mae **Doug Kerr** wedi ymuno â'r Ganolfan Ehangu Mynediad a Chynhwysiad Cymdeithasol fel Swyddog Cymorth Mentora a rheolwr "Ffordd hyn/Signpost", rhaglen fentora Aberystwyth i israddedigion newydd. Mae'r cynllun wedi bod yn rhedeg ers yn agos i bum mlynedd ac mae'n rhan allweddol o strategaeth gadw'r Brifysgol, yn enwedig i'r rheini o gefndir ehangu mynediad, y rheini sy'n cael trafferth symud o'r ysgol i'r coleg a'r rheini sydd heb unrhyw brofiad teuluol o addysg uwch.



Bydd Doug hefyd yn gweithio gyda myfyrwyr sy'n dod o gefndir gofal/maethu, cyn iddynt ddod i'r Brifysgol, drwy'r broses ymgeisio a chyrraedd, gan gefnogi ymrwymiad Aberystwyth i Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle i'r Rheini sy'n Gadael Gofal mewn AU.

## Yr Ysgol Rheolaeth a Busnes



Penodwyd **Ben Hopkins** yn Ddarlithydd mewn Rheoli Adnoddau Dynol. Mae Ben yn raddedig o Rydychen (Economeg a Rheoli) a chafodd MA mewn Cysylltiadau Diwydiannol a Rheoli Personél o Brifysgol Warwick lle ymgymerodd â'i ymchwil PhD hefyd. Meysydd ymchwil Ben yw rheoli adnoddau dynol, cysylltiadau diwydiannol ac ymddygiad trefniadaeth. Mae ei ymchwil cyfredol yn archwilio datblygiad hierarchaethau anffurfiol a ffurfiol mewn gweithluoedd dros dro a mudol.



Ymunodd **Dr Nazrul Islam** â'r Ysgol fel Darlithydd mewn Rheoli Arloesi. Mae ganddo D.Eng. mewn Rheoli Arloesi a M.Eng. mewn Peirianneg Gemegol o Sefydliad Technoleg Tokyo. Yn flaenorol bu'n dysgu ym Mhrifysgol Caerdydd, Sefydliad Technoleg Tokyo a Phrifysgol Dhaka. Ei feysydd ymchwil yw rheoli arloesi technoleg newydd ac aflonyddol (e.e. nanodechnoleg, biodechnoleg a thechnolegau cynhyrchu hydrogen), rhagfynegi a mapio technoleg, asesu parodrwydd a chylchoedd oes technoleg.



Ymunodd **Dr Patrizia Kokot** â'r Ysgol Rheolaeth a Busnes yr haf diwethaf. Cwblhaodd ei PhD yn Uned Rhywedd y London School of Economics a'i Gradd Meistr mewn Economeg ym Mhrifysgol Maastricht yn yr Iseldiroedd. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar brofiadau menywod o ran cynnydd gyrfa a sut mae'r profiadau hyn yn gwahaniaethu ar draws cenhedloedd gan ystyried croestoriadau rhyw, hil, dosbarth a rhywioldeb. Ar hyn o bryd mae'n gweithio hefyd ar brosiect sy'n archwilio dosbarth ac arweinyddiaeth yn gysylltiedig â throseddu trefnedig.

# Er cof

Gyda thristwch mawr y nodwn farwolaeth cydweithiwr, **Alex Baldock**, a dau gyn-aelod staff, **Mr Stuart John** a **Mr H T Conway**, yn ystod Tachwedd a Rhagfyr.

Roedd **Alex Baldock** yn Rheolwr Dyletswydd yn adran Gwasanaethau Llety a Chroeso'r Brifysgol lle bu yn gweithio am ddwy flynedd

Graddiodd Alex mewn Busnes a Rheolaeth yma yn Aberystwyth yn 2006. Rhwng 2004 a 2008 roedd yn aelod gwerthfawr o staff myfyrwyr Undeb y Myfyrwyr, gan weithio fel Stiward Adloniant ac yna fel Goruchwyliwr Stiwardiaid Adloniant. Yn Hydref 2008 daeth yn aelod staff yn yr Undeb gan weithio yn y Swyddfa Gyllid.

Talwyd teyrnged iddo gan Jim Wallace, Cyfarwyddwr Llety a Chroeso, â'i ddisgrifiodd fel ffrind a chydweithiwr hoffus iawn i staff a myfyrwyr, o fewn yr adran ac ar draws y Brifysgol. "Roedd yn gwneud gwaith cysylltiol gwerthfawr iawn yn y preswylfeydd ac o'r herwydd yn nabod nifer fawr o'r myfyrwyr. Roedd ei agwedd tuag at ei waith yn broffesiynol a dangosai ddealltwriaeth ac aeddfedrwydd a oedd tu hwnt i'r hyn a fyddai'n arferol gan ŵr mor ifanc.," dywedodd.



Gyda thristwch nodwn farwolaeth **Mr Stuart John**, oedd yn fyfyriwr Ffrangeg yn Aberystwyth (1949-1953; MA 1954-1956), cyn cael ei benodi'n Gynorthwyydd Gweinyddol yn y Gofrestrfa (1957-1959) ac yna'n Ddarlithydd ac Uwch Ddarlithydd Ffrangeg rhwng 1959 tan iddo ymddeol ym 1995.

Roedd Stuart John yn arbenigo mewn llenyddiaeth Ffrangeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Gwasanaethodd fel Pennaeth Ffrangeg a Deon Cyfadran y Celfyddydau; roedd galw mawr am ei gyngor mewn pwyllgorau amrywiol yn y brifysgol, a chwaraeodd ran fawr pan gynlluniwyd Adeilad Hugh Owen. Ar ôl iddo ymddeol, roedd yn aelod o Gyngor y Brifysgol. Am sawl blwyddyn, gwasanaethodd fel Prif Farsial yn ystod seremonïau graddio blynyddol y brifysgol.

Roedd yn athro diflino, ymroddedig, a dderbyniai barch mawr gan genedlaethau o fyfyrwyr a chydweithwyr.

Gyda thristwch rydym yn nodi marwolaeth **Mr H.T. Conway**, a adwaenid gan y staff a'r myfyrwyr fel Steve Conway. Ymunodd â'r Adran Addysg yn hydref 1955, gyda chyfrifoldeb am hyfforddi myfyrwyr TAR mewn Bioleg, gan aros yn yr adran tan iddo ymddeol yn 1988.

Yn ystod y 1970au bu'n flaenllaw wrth ddatblygu'r cwrs M.Ed mewn Technoleg Addysgol, a oedd mewn oes gyn-gyfrifiadurol yn arloesi wrth weithredu dulliau technoleg newydd ar gyfer addysg.

Cafwyd casgliad er cof am Steve at yr Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Gwlypdiroedd, mewn cydnabyddiaeth o'i ddiddordeb oes mewn adareg.

## Record i'r trac

Enillwyd Her Milltir mewn Pedwar Munud cyntaf y Ganolfan Chwaraeon, a gynhaliwyd i nodi agor y trac rhedeg newydd, gan dîm o fyfyrwyr mewn amser o 4 munud 59 eiliad. Yn y tîm roedd y brawd a'r chwaer Ifan ac **Alaw Beynon Thomas,** sy'n astudio Amaethyddiaeth a Busnes, a Daearyddiaeth, **David Cole** (y Gyfraith) ac athrawes o Aberaeron, **Sian Kirk**, ac fe osodwyd record newydd i'r trac.



*Frank Rowe, David Cole, Alawn Beynon Thomas, Ifan Beynon Thomas a'r Athro Noel Lloyd*

Cyflwynwyd y gwpan gan yr Athro Noel Lloyd, defnyddiwr cyson o'r trac rhedeg, a Frank Rowe, Cyfarwyddwr y Ganolfan Chwaraeon.



# CBE i'r Is-Ganghellor

Cyflwynwyd CBE i'r **Athro Noel Lloyd** mewn seremoni yn Llundain ddydd Mercher 21 Hydref. Cyhoeddwyd yr anrhydedd yn wreiddiol yn Rhestr Anrhydeddau'r Frenhines ym mis Mehefin, ac fe'i cyflwynwyd am wasanaethau i Addysg Uwch yng Nghymru.

# Taith elusennol

Cododd **Rob Wyn Jones** o'r Adran Adnoddau Dynol dros £1000 i Wasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru drwy ymgymryd â thaith feicio noddedig o Aberystwyth i Ynys Môn, ar 12 Hydref 2010.



Roedd y daith 86 milltir yn cynnwys tirwedd hyfryd (yn ogystal â pheth cramp!) drwy Benrhyn Llŷn ac Eryri, gan ddiweddu yn Lon Cei Bont ym Mhorthaethwy. Mae Rob yn hyfforddi gwersi sbin yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol.

Cwblhawyd y daith mewn 6 awr 40 munud, ac roedd yn ei wneud er cof am ei ddiweddar dad Ieuan. Hoffai Rob ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n hael yn Aberystwyth a Gogledd Cymru - os hoffai unrhyw un arall gyfrannu, gallant wneud hynny drwy www.justgiving.com/robwynjones.

DIGWYDDIADUR

## Arddangosfeydd

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | | |
|---|---|---|
| **Tan 8 Ionawr** | **FFOTOGRAFFYDD BYWYD GWYLLT Y FLWYDDYN** | Oriel 2 |
| **Tan 22 Ionawr** | **AR YR YMYLON: CELFYDDYD BRYDEINIG 1950 – 2000** | Oriel 1 |
| | **Ffilmiau'r Artistiaid, Tymor 2:** 26 ffilm fer, dwy stori arswyd afaelgar (i'r dim ar gyfer nosweithiau oer, diflas), cofnod o gerflun symudol anhygoel, a barn ugain o Gymry. | Y Blwch |
| **YR YSGOL GELF** | | |
| **23 Hydref tan 5 Ionawr** | **'Crochenwaith Japaneaidd: Y To sy'n Codi o Odynau Traddodiadol Japan'** (Arddangosfa Deithiol gan Sefydliad Japan) | Oriel Serameg, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth |
| **29 Tachwedd tan 28 Ionawr** | **'Edward Gordon Craig: Cynlluniau Llwyfan, Darluniau, Ysgythriadau a Ffotograffau'** Arddangosfa Deithiol gan Ganolfan Celfyddydau Dyffryn Mynwy | |
| **29 Tachwedd tan 28 Ionawr** | **Arddangosfa PhD, Michael Roberts** | |

## Perfformiadau a Digwyddiadau

| CANOLFAN Y CELFYDDYDAU | |
|---|---|
| **10 – 22 Rhagfyr** | **The Wizard of Oz** Canolfan y Celfyddydau'n cyflwyno'r sioe gerdd boblogaidd yn ei chynhyrchiad Nadolig – hwyl i'r teulu cyfan! |
| **7 – 22 Ionawr** | **Cinderella** Cymdeithas Ddrama'r Warden yn cyflwyno'u pantomeim blynyddol, gyda Richard Cheshire a Ioan Guile yn actio'r chwiorydd Mi Mi a Fi Fi! |
| **Tan 9 Ionawr** | **FFAIR GREFFTAU AC ANRHEGION Y GAEAF** Y lle perffaith i brynu'ch holl anrhegion Nadolig! |
| **9 Ionawr** | **Cyngerdd Arbennig** 8 yr hwyr BRYN TERFEL a GWAWR EDWARDS yn ymuno â'r corau lleol, CÔR GORE GLAS a CHÔR AELWYD BRO DDYFI, am noson hwyliog o ganu. |
| **28 – 29 Ionawr** | **Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru** 7.30 yr hwyr Comisiynau hudolus a swynol gan y ddau goreograffydd rhyngwladol Stephen Petronio a Gustavo Ramirez Sansano. |

## Egwyl y Nadolig

Bydd y Brifysgol yn cau ar gyfer gwyliau'r Nadolig ddydd **Iau 23 Rhagfyr 2010 ac yn ailagor ddydd Mawrth 4 Ionawr 2011.**
Cyfarchion y tymor oddi wrth dîm yr Adran Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

## Taith Rithiol

Dewch i gael golwg gwbl newydd ar y Brifysgol! Mae taith rithiol o'r campws newydd ei hychwanegu i'r wefan, gweler: www.aber.ac.uk/cy/virtual-tour/



YR YSGOL GELF



*The Face*

## Michael Roberts, Arddangosfa PhD

**29 Tachwedd 2010 tan 28 Ionawr 2011**

Mae Michael Roberts yn cael ei hudo gan y namau a anwybyddir neu a leiheir yn aml yn y traddodiad peintio portreadau. Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r artist wedi astudio cannoedd o bortreadau, gan ddadansoddi'r namau, creithiau a chrychiau - elfennau sy'n ein cysylltu ni gyda'n gilydd fel bodau dynol. Wedi'i ysgogi gan ddarluniau meddygol yn ei arsylwadau, mae gwaith Michael yn aml yn ddwys ac yn bwrw rhywun oddi ar eu hechel. Drwy ddarlunio croen yn fanwl, mae peintiadau Roberts yn creu portread cyffredinol o'r cyflwr dynol yn hytrach na delfrydu'r cof am unigolyn.

## Dyddiau Agored

Mae dyddiadau dyddiau agored 2011 wedi'u cyhoeddi. Y dyddiadau yw dydd Mercher 6 Gorffennaf, dydd Mercher 14 Medi a dydd Sadwrn 15 Hydref. Os na allwch chi ddod, beth am ymweld â'r dydd agored rhithiol newydd www.aber.ac.uk/en/virtual-open-day/